

Atodiad 4 - Holiadur Ymgynghori drafft

Ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth Cyngor i Cyngor Gwynedd am unrhyw eiddo?

- Ydw
- Nac ydw

A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd?

- Nac ydw
- Ydw – ail gartref
- Ydw – annedd gwag hirdymor
- Ydw – annedd gwag hirdymor ac ail gartref

Yn eich barn chi, pa effaith mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

- Effaith gadarnhaol ar y cyfan
- Effaith niwtral ar y cyfan
- Effaith negyddol ar y cyfan

Yn eich barn chi, pa effaith mae anheddau gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

- Effaith gadarnhaol ar y cyfan
- Effaith niwtral ar y cyfan
- Effaith negyddol ar y cyfan

Mae'r Cyngor yn ystyried cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor (sy'n 100% ar hyn o bryd). A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

- Ydi
- Nac Ydi

Os ydych yn wedi ateb "Ydi" i'r cwestiwn blaenorol, pa lefel ydych chi'n credu fyddai'n briodol i osod y Premiwm:

- Hyd at 150%
- Hyd at 200%
- Hyd at 250%
- Hyd at 300%

Os ydych o'r farn dylid cynyddu'r Premiwm, oes ganoch farn ynglŷn â sut i gyflwyno'r cynnydd hwnnw:

- Yn raddol dros sawl blwyddyn
- Ar unwaith

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn codi yr un lefel o Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hir-dymor. Oes ganoch farn ar hyn?

- Dylid parhau i gadw'r ddau ar yr un lefel
- Dylai'r Premiwm fod yn is ar ail gartrefi

- Dylai'r Premiwm fod yn is ar anheddau gwag hirdymor

Eglurwch y rheswm dros eich ateb os gwelwch yn dda

Yn eich barn chi, a fyddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg?

- Byddai
- Na fyddai

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, byddai nifer yr ail gartrefi yng Ngwynedd yn...

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Gostwng

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, credaf byddai nifer yr anheddau gwag yng Ngwynedd yn...

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Gostwng

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai argaeledd tai fforddiadwy yng Ngwynedd yn...

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Gostwng

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar y gymuned leol yn...

- Gadarnhaol ar y cyfan
- Niwtral ar y cyfan
- Negyddol ar y cyfan

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar dwristiaeth yn...

- Gadarnhaol ar y cyfan
- Niwtral ar y cyfan
- Negyddol ar y cyfan

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar yr economi leol yn gyffredinol yn...

- Gadarnhaol ar y cyfan
- Niwtral ar y cyfan
- Negyddol ar y cyfan

Buasem yn croesawu unrhyw sylwadau eraill sydd gennych: